Y Cyngor Deintyddol
Cyffredinol

# Gwenwch

Mae eich tîm deintyddol yn cael archwiliadau hefyd

**Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol**

diogelu cleifion,
rheoleiddio'r tîm deintyddol



**Does wahaniaeth a ydych chi'n ymweld i gael eich archwiliad rheolaidd, yno i gael eich dannedd wedi'u glanhau neu i gael triniaeth fwy cymhleth, mae'n rhaid i'r gweithwyr deintyddol proffesiynol sy'n eich trin chi (a'u gwasanaethau) fodloni'r safonau a bennwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.**

## Mae'r daflen hon yn egluro:

- gwaith y Cyngor Deintyddol Cyffredinol;
- beth i'w ddisgwyl pan fyddwch chi'n ymweld; a
- beth i'w wneud os nad ydych chi'n fodlon â'ch profiad.

# Gwaith y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yw rheolydd deintyddol y DU. Ein gwaith yw amddiffyn cleifion deintyddol. Cawsom ein sefydlu gan y Senedd ond rydym yn annibynnol ar y Llywodraeth a'r GIG. Yn ôl y gyfraith, rhaid i weithwyr deintyddol proffesiynol (y GIG a phreifat) gofrestru gyda ni i weithio yn y DU.

**Rydym yn rheoleiddio'r holl weithwyr deintyddol proffesiynol:**

- technegwyr deintyddol clinigol;
- hylenyddion deintyddol;
- nyrsys deintyddol;
- technegwyr deintyddol;
- therapyddion deintyddol;
- deintyddion; a
- therapyddion orthodontig.



Mae'n rhaid i weithwyr deintyddol proffesiynol sydd ar ein cofrestr fodloni ein safonau uchel. Rhaid i weithwyr deintyddol proffesiynol:

- roi lles cleifion yn gyntaf;
- cyfathrebu'n effeithiol gyda chleifion;
- cael caniatâd dilys gan gleifion i gyflawni triniaeth;
- cynnal a diogelu gwybodaeth cleifion;
- meddu ar weithdrefn gwyno glir ac effeithiol;
- gweithio gyda chydweithwyr mewn ffordd sy'n fuddiol i les cleifion;
- cynnal, datblygu, a gweithio o fewn cwmpas eu gwybodaeth a'u sgiliau proffesiynol;
- codi pryderon os yw cleifion mewn perygl; a
- sicrhau bod eu hymddygiad personol yn cynnal hyder cleifion ynddynt hwy ac yn y proffesiwn deintyddol.

Rydym yn gwneud yn siŵr bod gweithwyr deintyddol proffesiynol yn parhau i roi eich lles chi yn gyntaf gydol eu gyrfa trwy fynnu cael prawf o'u datblygiad proffesiynol parhaus. Rydym yn cymryd camau pan na fydd ein safonau'n cael eu bodloni.

# Pam mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn berthnasol i mi?

Pan fyddwch yn gwneud apwyntiad rydych yn disgwyl safonau gofal uchel. Ond os nad yw hyn yn digwydd neu os oes rhywbeth yn mynd o chwith gyda'ch triniaeth, mae cymorth ar gael.

Gallwch weld a yw gweithiwr deintyddol proffesiynol wedi'i gofrestru gyda ni trwy fynd i'n gwefan neu'n ffonio ni. Os oes gennych chi bryderon sy'n gwneud i chi amau na ddylai gweithiwr deintyddol proffesiynol fod yn trin cleifion o gwbl, dylech gysylltu â ni.

Hefyd, gallwn eich helpu i ddod o hyd i sefydliad priodol os ydych yn ceisio cael iawndal neu'n ceisio setlo cwyn.

Ewch i: **www.gdc-uk.org**
Ffôn: **020 7167 6000**
Ebost: **information@gdc-uk.org**



# Beth ddylwn i ei ddisgwyl pan fyddai'n ymweld?

Mae ymchwil yn awgrymu bod y rhan fwyaf o bobl yn cael profiad cadarnhaol o ofal deintyddol, ond gall fod yn anodd gwybod a oedd eich triniaeth o'r safon orau gan ei bod hi'n anodd cymharu eich profiad chi â phrofiad rhywun arall.

**Dyma beth ddylech chi wybod.**

- Cyn i'ch gweithiwr deintyddol proffesiynol wneud unrhyw waith, dylai archwilio'ch ceg ac yna rhoi cynllun triniaeth i chi ac amcangyfrif o faint fydd unrhyw waith yn ei gostio.
- Fel rhan o'ch ymgynghoriad cyntaf fe ddylai ofyn i chi am eich hanes meddygol llawn. Cewch eich holi am eich iechyd cyffredinol ac a ydych chi'n smygu.
- Os ydych chi'n cael triniaeth i osod unrhyw 'gyfarpar deintyddol' (e.e. coron), gallwch ofyn am ddatganiad gweithgynhyrchu. Mae hwn yn rhoi gwybodaeth am y cyfarpar, pwy wnaeth ei gynhyrchu a'i ragnodi, yn cadarnhau ei fod wedi'i wneud yn arbennig ar eich cyfer chi a'i fod yn bodloni safonau cyfreithiol.
- Os yw'r deintydd yn dweud ei fod yn arbenigwr mewn maes arbennig, er enghraifft mewn orthodonteg neu ddeintyddiaeth adferol, gallwch edrych i weld a yw hyn wedi'i nodi ar ein cofrestr.
- Os byddwch yn colli apwyntiad ac yn un o gleifion y GIG yng Nghymru neu Loegr, ni fyddwch yn gorfod talu, ond os ydych chi'n glaf preifat neu'n un o gleifion y GIG yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon efallai y bydd y practis yn codi tâl arnoch chi - ond mae rhaid iddynt eich rhybuddio ymlaen llaw y byddant yn gwneud hynny.

# Pa gwestiynau allwn i eu holi?

Peidiwch ag ofni holi cwestiynau syml yn ystod eich apwyntiad os oes triniaeth i gael ei gwneud ar unwaith neu gwnewch rywfaint o ymchwil pellach os oes amser cyn eich triniaeth. Siaradwch â chleifion eraill sydd wedi cael yr un driniaeth neu sydd wedi ymweld â deintydd arall am ail farn hyd nes y byddwch yn teimlo'n ddigon hyderus i fwrw ymlaen â'r driniaeth.

**Faint fydd y driniaeth yn ei chostio?**

**Pryd mae'n rhaid i mi dalu?**

**Pwy fydd yn fy nhrin?**

**Sawl gwaith y mae ef neu hi wedi gwneud y driniaeth hon?**

**Beth sy'n digwydd os na fyddai'n fodlon â'r canlyniadau? Pwy sy'n talu am unrhyw waith sy'n cael ei wneud i gywiro unrhyw broblemau?**

**Os oes yna unrhyw gymhlethdodau a bod angen rhagor o driniaeth arna i, a fydd yna unrhyw gostau ychwanegol?**

**Pa fath o yswiriant sydd gennych chi?**

**A yw'r gwaith wedi'i warantu am hyn a hyn o amser?**

**Â phwy alla i gysylltu am gyngor wedi'r driniaeth?**

## Triniaeth frys

Os ydych wedi cofrestru fel un o gleifion y GIG, mae gennych hawl i driniaeth frys ymhen 24 awr a bydd eich practis yn gallu darparu hyn. Mae dyletswydd ar ddeintyddion preifat i ddarparu gwasanaeth brys tebyg.

Os nad oes gennych chi ddeintydd rheolaidd gallwch ffonio un o'r sefydliadau cenedlaethol canlynol am gymorth.

NHS Choices (Lloegr)
Ffôn: **111**

NHS Choices (Yr Alban)
Ffôn: **111**

Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon
Ffôn: **111**

GIG Cymru
Ffôn: **111**

## Y gost

Mae cost triniaeth ddeintyddol yn dibynnu ar sawl ffactor megis pa mor gymhleth yw'ch triniaeth, a oes angen unrhyw waith mewn labordy, a ble rydych chi'n byw. Byddai'n werth i chi holi'ch deintydd am gostau a beth yw'r trefniadau ar gyfer talu cyn i'ch triniaeth ddechrau.

Dylai deintyddion y GIG roi amcangyfrif ysgrifenedig i chi ar gyfer unrhyw gwrs helaeth o driniaeth, a dylai hefyd roi amcangyfrif ysgrifenedig am waith arall os holwch am un. Hefyd mae'n rhaid i ddeintyddion preifat nodi eu costau'n glir.



## Triniaeth gan y GIG

Mae costau triniaeth ddeintyddol y GIG yn cael eu pennu gan adrannau iechyd y DU bob blwyddyn a byddwch yn talu'r un faint, waeth pa bractis y byddwch yn ei ddewis. Mae cost ymweld â phractis y GIG am driniaeth achlysurol yn union yr un faint â thriniaeth ar gyfer cleifion cofrestredig. Mae gwybodaeth am gostau triniaeth ddeintyddol y GIG ar gael gan y deintydd neu trwy ffonio Galw Iechyd Cymru/NHS Choices (neu'r gwasanaeth cenedlaethol cyfatebol os ydych yn byw yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon) – byddant yn gallu rhoi enghreifftiau o'r hyn y gallwch dalu am driniaethau.

Ewch i wefannau'r GIG a chwilio am 'costau deintyddiaeth' i gael mwy o wybodaeth am gostau.

GIG Lloegr
**www.nhs.uk**

GIG yr Alban
**www.show.scot.nhs.uk**

GIG Cymru
**www.wales.nhs.uk**

GIG Gogledd Iwerddon
**www.hscni.net**

## Gofal preifat

Gall ffioedd deintyddol yn y sector preifat amrywio'n fawr. Nid oes unrhyw ganllawiau swyddogol ynglŷn â faint y gall deintydd ei godi. Dylech ofyn faint fydd eich triniaeth yn costio cyn ac yn ystod eich apwyntiad a chytuno gyda'ch deintydd ar y ffi.



## Beth ddylwn i ei wneud os nad ydw i'n fodlon?

Os nad ydych yn fodlon, bydd gan eich practis deintyddol ei weithdrefn ymholi neu gwyno ei hun ac fel arfer gellir mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o faterion fel hyn. Siaradwch â'ch practis yn gyntaf i weld a allwch chi ddatrys y broblem.

Os ydych yn dal yn anfodlon, mae cymorth pellach ar gael.

## Â phwy alla i gysylltu os oes gen i broblem gyda gofal deintyddol preifat?

**Gwasanaeth Cwynion Deintyddol (DCS)**
Gwasanaeth arbenigol, am ddim a all eich cynorthwyo os oes gennych chi gŵyn am ofal deintyddol preifat. Mae'n annibynnol, yn deg ac wedi'i ariannu gennym ni.
**www.dentalcomplaints.org.uk**
Ffôn: **020 8253 0800**

Mae Cyngor Ar Bopeth yn darparu cyngor am ddim, annibynnol, cyfrinachol a theg i bawb am eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Mae ganddynt swyddfeydd lleol (cyngor ar bopeth) ledled y DU a all eich helpu.
**www.adviceguide.org.uk/cy/wales**



## Â phwy ddylwn i gysylltu os oes gen i gŵyn am ofal deintyddol y GIG?

Cymorth a chyngor i gleifion a chynhalwyr sydd am wneud cwyn am driniaeth neu ofal a gawsant gan y GIG.

**Cymru: Cynghorau Iechyd Cymuned (CHCs)**
www.wales.nhs.uk

**Lloegr: Patient Advice and Liaison Services (PALS)**
www.nhs.uk

**Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol ar gyfer Cwynion (ICAS)**
Dwyrain Lloegr, Llundain a Gorllewin Canolbarth Lloegr
www.pohwer.net

De-ddwyrain a De-orllewin Lloegr
www.seap.org.uk

Gogledd-orllewin, Gogledd-ddwyrain, Dwyrain Canolbarth Lloegr a Swydd Efrog a Humberside
www.carersfederation.co.uk

**Yr Alban: The Patient Advice and Support Service (PASS)**
www.cas.org.uk/patientadvice

## Sut all y CDC helpu?

Rydym yma i amddiffyn cleifion deintyddol. Os ydych yn pryderu bod y driniaeth a gawsoch yn is na'r safon gallwch gysylltu â ni.

Rydym yn cymryd camau pan mae ymddygiad neu iechyd gweithiwr deintyddol proffesiynol yn golygu nad yw'n addas iddo barhau i weithio fel gweithiwr deintyddol proffesiynol. Os yw'r sefyllfa yn ddigon difrifol, gallwn gyfyngu ar neu ddileu hawl y gweithiwr hwnnw i weithio yn y DU.

Gall unrhyw un gysylltu â ni am eu pryderon, ond rydym yn ymdrin â mathau arbennig o gwynion yn unig. Cyn cysylltu, darllenwch ein taflen 'Sut i'n hysbysu ynghylch gweithiwr deintyddol proffesiynol' sy'n egluro beth allwch chi roi gwybod i ni yn ei gylch a'r mathau o bryderon rydym ni'n ymdrin â nhw. Mae'r daflen ar gael ar **www.gdc-uk.org** neu trwy ffonio **020 7167 6000**.

Fe fyddwn yn eich cyfeirio at sefydliadu a all eich helpu i gael iawndal neu ateb i'ch problem os oes angen.

Os am wirio bod eich gweithiwr deintyddol proffesiynol wedi'i gofrestru, **ewch i: www.gdc-uk.org**

Rydym am wneud yn siŵr bod ein holl wasanaethau'n hygyrch i bawb.

Os hoffech gopi o'r daflen hon mewn fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print mawr neu ar dâp) neu mewn iaith ar wahân i Saesneg, cysylltwch â ni.

**Y CYNGOR DEINTYDDOL CYFFREDINOL**
37 Wimpole Street
Llunain
W1G 8DQ

Ffôn: **020 7167 6000**
Ebost: **information@gdc-uk.org**
Gwefan: **www.gdc-uk.org**

Gorffennaf 2014